

Adroddiad Cryno ar Gynaliadwyedd 2017-2018

Mae Estyn wedi nodi bod ein prif effeithiau ar yr amgylchedd yn deillio o ddefnyddio ynni, cludiant, cynhyrchu gwastraff a defnyddio deunyddiau swyddfa. Bydd Estyn yn ceisio lleihau effeithiau hyn ar yr amgylchedd trwy ymrwmo i set gynhwysfawr o amcanion a thargedau gwella.

Perfformiad yn erbyn amcanion amgylcheddol 2017-2018:


1. Parhau i fonitro'r CO₂ a gynhyrchir gyda'r nod o'i leihau 5% dros y pum mlynedd nesaf (ar sail ffigurau 2012-2013).

Gwaelodlin Estyn 2012-2013: 205,607.18 kg CO₂
Targed erbyn 2017-2018: 195,326.82 kg CO₂

2013-2014:	199,051.31 kg CO ₂
2014-2015:	174,861.88 kg CO ₂
2015-2016:	200,086.06 kg CO ₂
2016-2017	168,562.00 kg CO ₂
2017-2018	169,737.00 kg CO ₂

*Nodiadau:


- pan gymerodd y landlord newydd yr adeilad drosodd yn ystod 2016, gosodwyd mesuryddion nwy newydd wedi'u graddnodi; mae allyriadau a adroddwyd ar gyfer 2016-17 wedi cael eu haddasu i adlewyrchu hyn;
- defnyddiwyd ffactorau trosi diweddaraf Defra yn yr adroddiad hwn a'u cymhwyso i ddata hanesyddol, er cysondeb.



Cyfanswm ein hallyriadau CO2 yn 2017-2018 oedd 169,737 kg. Er bod hyn yn dangos ychydig o gynnydd o gymharu â ffigur y llynedd (168,562 kg), mae'r cyfanswm yn sicr o fewn ein targed o 195,326.82 kg erbyn 2017-2018.

I Estyn, o ganlyniad i natur ein busnes, caiff cyfran uchaf yr allyriadau CO2 ei chynhyrchu gan ein defnydd o gludiant. Er gwaethaf hyn, bu gostyngiad o 17.5% (92,279 kg CO2) yn 2017-2018 o gymharu â ffigur y flwyddyn flaenorol ar gyfer allyriadau cludiant, sef 111,788 kg.

Dangosir isod gyfran yr allyriadau CO2 ar draws trydan, nwy a theithio ar gyfer y cyfnod:



Nodir rhagor o wybodaeth am fentrau y mae Estyn yn eu hyrwyddo i gefnogi gostyngiad yn yr allyriadau hyn yn adran 4 isod.


2. Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru (LIC) “Tuag at Ddyfodol Diwastraff”, cynyddu ailgylchu 5% dros y pum mlynedd nesaf (ar sail ffigurau 2013-2014).

Mae gan Estyn ddulliau gwaredu adfer¹ ailgylchu/ygni ar waith ar gyfer ffrydiau gwastraff amrywiol, gan gynnwys papur, caniau alwminiwm, poteli plastig, gwastraff bwyd, offer TG ac offer electronig arall. Caiff ‘gwastraff bagiau duon’ Estyn ei losgi yn llosgydd Viridor Trident Park, gan adfer ynni. Ein targed (yn unol â LIC) yw i wastraff wedi'i ailgylchu gyfrif am 76% o gyfanswm y gwastraff a gynhyrchir gennym erbyn 2018-2019.

Disgynnodd y sgil-gynnyrch gwastraff cyffredinol 26% i 5774kg yn 2017-2018 (7847kg yn 2016-2017) gyda 5228 kg (91%) o hyn yn cael ei ailgylchu; arhosodd

¹ Adferiad ailgylchu/ygni Estyn ar sail pwysau mewn kg o wastraff

maint y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi ar yr un lefel wirioneddol â'r flwyddyn flaenorol, ac roedd yn cynrychioli 9% o gyfanswm y sgil-gynnyrch gwastraff. Rydym yn parhau o fewn y targed a osodwyd am y pedair blwyddyn yn olynol.



Rydym yn gweithio gyda'n darparwr gwasanaethau glanhau ar hyn o bryd i reoli llosgi gwastraff glanweithiol – dyma'n ffrwd wastraff olaf sy'n mynd i safleoedd tirlenwi ar hyn o bryd ac rydym yn optimistaidd ynglŷn â chyflwyno'r newid hwn yn ystod 2018-2019.

3. Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru (LIC) "Tuag at Ddyfodol Diwastraff", lleihau sgil-gynhyrchion gwastraff 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050 (yn seiliedig ar ffigurau 2013-2014).

Mae Estyn yn annog pob aelod o staff i leihau gwastraff² yn unol â thair egwyddor, sef lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu.


Gwaelodlin 2013-2014: 8,080 kg o sgil-gynnyrch gwastraff blynyddol (R-5,767 kg/L-2,313 kg)

Targed: gostyngiad o 1.2% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2050.

2014-2015: 6,891 kg (R-5,456 kg/L-1,435 kg)
 2015-2016: 9,175 kg (R/ER-8,319 kg/L-856 kg)
 2016-2017: 7,847 kg (R/ER 7,301 kg/L 546 kg)
 2017-2018: 5,774 kg (R/ER 5,228 kg/L 546 kg)

² Atal gwastraff Estyn: ar sail pwysau mewn kg o wastraff.

Bu gostyngiad o 26% ym maint y gwastraff wedi'i ailgylchu a gynhyrchwyd yn ystod 2017/18, o'i gyferbynnau â'r un cyfnod y llynedd.



Yn fwy cyffredinol, cynyddodd Estyn ddefnydd o gyfathrebu electronig yn y swyddfa ymhellach, ar gyhoeddiadau allanol ac wrth ddefnyddio deunyddiau hyfforddi ar gyfer arolygwyr allanol. Mae mentrau ymgorfforedig eraill yn cynnwys:


- Microsoft Sharepoint, sef llwyfan ar gyfer TGCh Estyn sy'n cefnogi cydweithio ac yn cynnwys ystafell arolygu rithwir ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr ac Estyn
- dosbarthu adroddiadau arolygiadau yn electronig i Aelodau Cynulliad a darparwyr
- dosbarthu cylchlythyrau mewnol ac allanol ar-lein; a
- chyhoeddi dogfennau corfforaethol ac adroddiadau cylch gwaith Estyn trwy e-gyfathrebu yn hytrach na'u hargraffu ar ffurf copi caled.

Mae Estyn wedi ymrwmo i leihau gwastraff yn ei brosesau recriwtio hefyd; ystyrir ceisiadau yn electronig gan y panel gan ddefnyddio gliniaduron a chofbinnau. Mae ymgyrchoedd caffael yn parhau i gael eu cwblhau yn electronig.

Cyfanswm ein gwariant ar wastraff yn 2017-2018 oedd £3,777.00, sy'n cynnwys gwasanaethau'r cyngor lleol a gwasanaeth ailgylchu arbenigol ar gyfer 'gwastraff sensitif oddi ar y safle'.

4. Lleihau effaith cludiant y sefydliad sy'n cyfrannu at y targed i leihau CO2 (amcan 1).

Mae cludiant yn cyfrif am un o effeithiau mwyaf sylweddol y sefydliad ar yr amgylchedd. Dangosir milltired blynyddol arolygwyr (trwy gerbydau personol staff a defnyddio'r contract llogi ceir) ar gyfer y blynyddoedd diwethaf isod.




Mae Estyn yn annog cydweithwyr i rannu ceir wrth deithio ar fusnes swyddogol er mwyn lleihau effaith teithio swyddogol ar yr amgylchedd. Roedd milltired blynyddol arolygwyr a gofnodwyd ar ddiwedd 2017-2018 yn dangos gostyngiad o 18% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Parhaodd y sefydliad i wneud defnydd eang o'i gyfleuster galwad cynhadledd rhyngweithiol i leihau teithio i gyfarfodydd yn ystod y cyfnod, a allai fod wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn.

Nod contract llogi ceir Estyn yw lleihau'r effaith ar yr amgylchedd trwy deithio gan fod ceir sydd ar gael trwy'r cynllun yn cael eu dewis yn benodol gyda'r nod i leihau effaith allyriadau o gludiant. Caiff y ceir llogi eu diweddaru'n rheolaidd i sicrhau bod cerbydau ag allyriadau isel yn cael eu defnyddio.

Yn ychwanegol, caiff staff sy'n gyrru fel rhan o'u rôl eu hannog i yrru'n ddiogel a sicrhau tanwydd effeithlon gyda chyrsiau a gynigir i ddechreuwyr newydd a staff presennol. Mae Estyn hefyd yn ymdrechu i drefnu cyrsiau a digwyddiadau yn ddaearyddol i leihau teithio i ddigwyddiad. Mae Estyn wedi rhoi ar waith bolisi ar gyfer gyrru fel rhan o ddyletswyddau swyddogol, sy'n amlinellu ymagwedd Estyn at yrru tra bydd staff yn ymgymryd â busnes swyddogol.

Dangosir allyriadau cludiant blynyddol arolygwyr (car, rheilffordd ac awyr) ar gyfer y blynyddoedd diwethaf isod.



Mae staff yn teithio ledled Cymru wrth gyflawni busnes craidd Estyn i ymweld â darparwyr ar draws pob sector addysg. Yn ystod 2017-2018, roedd gostyngiad o 17.5% mewn allyriadau CO2 o gludiant. Fel y nodwyd eisoes, mae allyriadau cludiant yn cyfrif am y gyfran fwyaf o allyriadau CO2, sef 57% o gyfanswm yr allyriadau yn y cyfnod hwn, o gymharu â 69% yn 2016-2017.

Gostyngodd allyriadau tanwydd o ddisel a phetrol 18% yn 2017-2018, gyda gostyngiad o 22% mewn allyriadau o deithio ar reilffordd, a gostyngiad o 0.2% mewn allyriadau o deithio ar awyren, o gymharu â ffigurau 2016-2017.

Nod Estyn yw lleihau allyriadau CO2 o gludiant fel yr amlinellir uchod, ond fel arolygiaeth sy'n gweithio ym mhob cwr o Gymru, mae effaith cludiant Estyn yn agwedd allweddol ar ein gwaith.

5. Cyfleu mentrau amgylcheddol (a chynaliadwyedd ehangach) i'r cyhoedd a'r staff.

Mae proses arolygu Estyn yn parhau i sicrhau bod dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n briodol wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy eu haddysg.

Mae Estyn yn parhau i weithio gyda sefydliadau fel Rhaglen Dysgu Byd-eang Cymru, (RhDB-C) i rannu arfer dda a chynnal proffil addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF) mewn ysgolion.

Mewn arolygiadau yn ystod 2017/18, lle nodwyd arfer gref, roedd nodweddion yn cynnwys:

- gwersi ADCDF yn cael eu hamserlennu, gan gynnwys gweithgareddau a chyflwyno difyr, sy'n cael eu monitro'n effeithiol gan y cydlynnydd ADCDF
- defnyddio ADCDF i ddatblygu dealltwriaeth well o amrywiaeth a datblygu goddefgarwch, sy'n helpu disgyblion i ddatblygu i fod yn ddinasyddion bydeang
- defnyddio ADCDF fel cyd-destun perthnasol ar gyfer disgyblion yn rhoi cyflwyniadau ac yn cwblhau tasgau ysgrifennu estynedig yn eu gwaith llythrennedd
- defnyddio gweithgareddau cyfoethogi, fel ymweliad â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn effeithiol i gefnogi addysgu ADCDF
- rhoi cyfleoedd arwain yn rheolaidd i ddisgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd, trwy waith grwpiau fel y pwyllgor eco

Fodd bynnag, nodwyd mai ychydig iawn o gyfleoedd dysgu proffesiynol sydd i staff o ran ADCDF, ac fe gaiff ADCDF ei chynnwys mewn ychydig iawn o gynlluniau datblygu yn unig.

Mae Estyn wedi parhau i weithio i gyfleu gwybodaeth briodol a rhoi cefnogaeth briodol i gynorthwyo staff i arfer eu cyfrifoldeb amgylcheddol yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, mae ein Polisi a'n Datganiad Amgylcheddol wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan ac mae erthyglau amgylcheddol wedi cael eu cynnwys yng nghylchlythyr staff Estyn. Fforwm a gynhelir bob deufis ar gyfer materion gweithredol yw ein Grŵp Cyflwyno Gwasanaethau ac mae wedi cynnwys cynnydd yn erbyn amcanion a thargedau amgylcheddol, ac mae asesiadau effaith, a gynhelir ar gyfer holl bolisiau Estyn, wedi cynnwys rhoi ystyriaeth i berfformiad amgylcheddol.

Mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gosod dyletswydd ar sefydliadau penodol i sicrhau mai datblygu cynaliadwy (DC) yw eu hegwyddor drefnu ganolog. Er na fydd y ddyletswydd hon yn berthnasol i Estyn, rydym wedi gwneud cryn dipyn i gynnwys yr elfennau datblygu cynaliadwy angenrheidiol yn ein hamcanion strategol a'n hegwyddorion cyflawni. Mae [Cynllun Blynyddol Estyn 2017 - 2018](#) wedi'i gyhoeddi ar wefan Estyn, ac mae'n cynnwys y modd y mae Estyn yn gweithio i gyflawni'r weledigaeth i Gymru a amlinellir yn y nodau llesiant, a'r pum ffordd o weithio (yr egwyddor datblygu cynaliadwy) yn Atodiad 1.

6. Parhau i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol mewn gweithdrefnau prynu.

Wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig ag arolygu, mae'n ofynnol i gyflenwyr gefnogi ymrwymiad Estyn i leihau ei effaith ar yr amgylchedd, lle bo'n berthnasol, a darperir dolen gyswllt y wefan i Bolisi Amgylcheddol Estyn ar eu cyfer. Ar gyfer caffael nad yw'n gysylltiedig ag arolygu, mae'r holl ddogfennau caffael sy'n deillio o Estyn wedi bod ar ffurf electronig er Medi 2010. Caiff rhoi ystyriaeth i ffactorau amgylcheddol ei gynnwys yn rheolaidd mewn meini prawf arfarnu tendrau a rhoddir cyfarwyddyd i gyflenwyr ddarparu dolenni cyswllt i'w gwefan, a sganio ardystiad perthnasol i ddangos tystiolaeth o hyn, yn hytrach nag anfon dogfennau manwl gyda'u cynnig.

Wrth droi at gaffael gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag arolygu, aeth cam dau prosiect Proffiliau Arolygwyr Estyn yn fyw ym mis Awst 2017. Mae'r swyddogaeth hon yn galluogi Arolygwyr Ychwanegol dan Gontract i gyflwyno cynigion contract i ni yn electronig a derbyn cynigion contract trwy borth diogel. Mae'r system hon hefyd yn gyfrwng effeithiol ar gyfer rheoli'r arfer o ddarparu a lleoli Arolygwyr Ychwanegol dan Gontract, ac mae wedi cael gwared ar yr angen i gyhoeddi llythyrau cynigion, gan leihau'r gofynion argraffu i'r naill ochr a'r llall.

Bydd cyflenwyr a ddarperir trwy fframweithiau'r llywodraeth eisoes wedi dangos eu hymrwymiad i wella'r amgylchedd i gymhwyso i gael eu cynnwys mewn rowndiau tendro. Pan nad oes fframwaith addas gan y llywodraeth, neu ar adegau pan nad yw cost nwyddau/gwasanaethau yn gofyn am dendr llawn, darperir cyflenwyr trwy gronfa ddata Sell2Wales; sydd hefyd yn cefnogi mentrau bach a chanolig yng Nghymru. Mae defnyddio'r llwybr hwn wedi galluogi Estyn i ymgysylltu â chyflenwyr lleol, a lleihau allyriadau a lleihau'r ôl-troed carbon ble bo modd, er enghraifft, defnyddir cwmnïau lleol ar gyfer pob digwyddiad arlwyro mewnol; gwasanaethau ffilm, dylunio graffeg a gwasanaethau ffotograffiaeth ddigidol ar gyfer Adroddiad Blynyddol PAEM.